
DEWCH I GWRDD Â'R

# RHYFEDDODAU BACH

## HEB ASGWRN CEFN

Ymddiriedolaethau Natur **Cymru**
Wildlife Trusts **Wales**

**Nid bod yn ddigywilydd ydyn ni, does gan y creaduriaid cyfareddol yma ddim asgwrn cefn! Mae gan lawer o greaduriaid rhyfeddol – sy'n cael eu galw weithiau'n bryfetach mân – yr un peth yma'n gyffredin, er bod digon o bethau'n eu gwneud nhw'n wahanol i'w gilydd hefyd. Dyma rai mathau o infertebrata y galli di ddod o hyd iddyn nhw yma yn y DU ac ar ynysoedd Alderney a Manaw.**



BYG DARIAN Y DDRAENEN WEN
@VAUGHN MATTHEWS



BUWCH GOCH COTA 7 SMOTYN
@JON HAWKINS

### LLAU

**Nid dim ond unrhyw drychfilod ydi llau!**

Mae llau go iawn yn perthyn i grŵp arbennig o'r enw Hemiptera ac mae ganddyn nhw gegau tebyg i wellt ar gyfer sugno sudd o blanhigion ac anifeiliaid eraill, gan gynnwys trychfilod! Mae'n well gennym ni ysgytlaeth... Mae ganddyn nhw ddau bâr o adenydd ac mae llawer hefyd yn byw yn y dŵr, fel y ceffyl dŵr bolwyn a sgorpion y dŵr.

### CHWILOD

**Felly, dydi pob infertebrat ddim yn drychfil, a dydi pob trychfil ddim yn chwilen - ond chwilod ydi'r grŵp mwyaf o drychfilod yn y byd!**

Mae mwy na 4,000 o wahanol chwilod yn y DU. Mae gan lawer arferion rhyfedd a rhyfeddol, o'r chwilen olew ddu sy'n bachu reid ar gefn gwenynen, i gael ei chludo'n ôl i'w nyth i fwyta'i hwyau, i'r chwilen gladdu sy'n hoffi cwrdd â'i chymar ar gorff anifail neu aderyn marw ac wedyn ei gladdu, fel bod eu babanod yn gallu ei fwyta pan fyddan nhw'n deor.

### OEDDET TI'N GWYBOD?

**Trychfilod ydi'r grŵp mwyaf o infertebrata – felly mae pob trychfil yn infertebrat, ond dydi pob infertebrat ddim yn drychfil! Mae pryfed cop, mwydod a molysgiaid i gyd yn infertebrata hefyd.**

### PRYFED COP

**Yn rhyfeddol, mae mwy na 650 o rywogaethau o bryfed cop yn y DU.**

Nid trychfilod ydi'r rhain, oherwydd yn lle chwe choes, maen nhw wedi tynnu pob stop ac wedi tyfu wyth. Mae rhai pryfed cop yn gwneud defnydd gwych o'r rhain ac yn llwyddo i gerdded ar ddŵr hyd yn oed, fel y pryf cop rafft. Ond rwyt ti'n fwy tebygol o weld pryf cop tŷ, sy'n hoffi gwneud ei we yn ein siediau a'n garejys ni. Mae tua hanner ein pryfed cop ni'n troelli gweoedd cymhleth mewn sidan i ddal bwyd neu ddenu cymar, ac mae eraill yn defnyddio gwahanol strategaethau hela a pharu.

### PRYFED

**Yn wahanol i lawer o drychfilod, dim ond un pâr o adenydd sydd gan bryfed.**

Yn lle ail bâr i'w helpu nhw i lywio i'r cyfeiriad cywir wrth hedfan, maen nhw'n defnyddio organau bach iawn i'w helpu nhw i gadw balans a llywio. Yr enw ar y rhain ydi halterau. Mae llawer o amrywiaeth yn y byd pryfed, gyda mwy na 7,000 o bryfed gwahanol yn y DU. Mae rhai yn beillwyr, fel pryfed hofran, ac eraill yn ysglyfaethwyr marwol, fel pryfed lleidr sy'n bwyta trychfilod bach eraill. Wyt ti wedi meddwl erioed sut mae pryfed yn gallu sefyll ar waliau a nenfydau? Oherwydd bod ganddyn nhw draed gludiog! Defnyddiol iawn.



PRYF HOFRAN MARMALED
@FRANK PORCH

### CALED A MEDDAL

**Mae gan rai infertebrata glawr allanol caled rownd eu corff, o'r enw allsgerbwd. Mae gan drychfilod, pryfed cop a chramenogion yr allsgerbwd yma i gyd. Mae gan infertebrata eraill, fel mwydod, gwlithod a slefrod môr, gorff meddal.**



CORRYN GARDD
@JON HAWKINS




PRYF LLEIDR
@JON HAWKINS

### GWELD Y GWAHANIAETH

**Mae mamaliaid, adar, pysgod, amffibiaid ac ymlusgiaid i gyd yn fertebrata. Yn wahanol i'r infertebrata yma, mae ganddyn nhw asgwrn cefn y tu mewn i'w corff.**

# MÂN DRYCHFILOD

Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Wildlife Trusts Wales



RHIAIN Y DŴR



TARIANBRYF Y DRAIN




PRYF HOFRAN MARMALÊD




PRYF CANOL DYDD



CARW'R GWELLT



PRYF COPYN YR ARDD



BUWCH GOTA 7 SMOTYN



CHWILEN FILWROL GOCH



MORGRUGYN MELYN Y DDÔL



ADAIN SIDEROG WERDD

Credydau: Luke Massey/2020VISION; Vaughn Matthews; Chris Lawrence; Nick Upton/2020VISION; Andy Jones; Paul Richards; Bob Coyle; Tom Marshall.

# Sut i wneud potel pryfed

# 30 Diwrnod Wyllt


## What you need:

- Clai
- Jar gyda chaead
- 40 cm o diwbiau plastig clir, hyblyg, 7 i 10 cm o led
  (chwilia mewn siop DIY fawr)



- Darn bach o rwyll, llenni net neu deits
- Band lastig
- Sticeri neu dâp gwyrdd a choch

1. Rhaid gwneud 2 dwll yn y caead (gofyn i oedolyn helpu gyda hyn)
2. Wedyn rhaid torri 2 hyd o diwb tua 15cm a 25cm o hyd a'u gwthio nhw drwy'r tyllau
3. Rho'r rhwyll dros ben y tiwb byrrach a defnyddio sticer/tâp gwyrdd y pen arall



4. Marcia'r tiwb hirach gyda sticer/tâp coch (mae coch yn golygu na ddylet ti sugno'r tiwb yma)
5. Rho ychydig o glai o amgylch tyllau'r tiwb i'w gwneud nhw'n aerdynn



Nawr rwyt ti'n barod i ddefnyddio dy botel pryfed!



www.wildlifewatch.org.uk

Illustration: Corinne Welch © Copyright Royal Society of Wildlife Trusts 2015

# Gwneud pwll bwytadwy


## 30 Diwrnod Wyllt

### Bydd angen:

- Pecyn 500ml o jeli leim
- Bag bychan o jeli cyrens duon
- Bag bychan o jelatin*
- Lliw bwyd glas
- Ffrwyth draig, tapioca wedi'i goginio neu hadau chia wedi'u socian
- Mwydod, nadroedd, pryfed neu bysgod jeli
- Rholiau ffrwythau gwyrdd
- Grawnwin gwyrdd
- Brogaod siocled
- Powlen glir 1 litr
- Jygiau mesur
- Rhidyll
- Siswrn




*Mae opsiynau llysieuol ar gael, fel agar, y gallwch chi eu defnyddio



Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y pecyn i gymysgu pob lliw o jeli mewn jwg. Gadewch i'r jeli oeri (ond nid setio) cyn ei arllwys i'r powlen i greu haen newydd.


Yn eich powlen, gadewch i bob haen newydd o jeli setio am awr yn yr oergell cyn ychwanegu haen arall.

**HAUN PEDWAR**
Hanner peint o jelatin, ychwanegwch ychydig ddiferion o liw bwyd glas

**HAUN TRI**
Y jeli gwyrdd sy'n weddill

**HAUN DAU**
Hanner y jeli gwyrdd a dau ddiferyn o liw bwyd glas

**HAUN UN**
Gwnewch y jeli cyrens duon a'i arllwys i'r powlen a'i adael i setio



Ychwanegwch lyffant siocled ger y grifft a mwynhau!

Clwstwr o ffrwyth draig wedi'i dorri, tapioca neu hadau chia (grifft llyffant) gyda rhywfaint o rawnwin wedi'u sleisio (padiau lili).

Gludwch weddill y siapiau cyrs ar i fyny yn y jeli.

Haen arall o fwydod neu bryfed a hanner y siapiau cyrs wedi'u torri o'r bar ffrwythau afal.

Haen o fwydod jeli.

Darganfod mwy o weithgareddau yn
www.wildlifewatch.org.uk

Illustration: Corinne Welch © Copyright Royal Society of Wildlife Trusts 2015